# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

**Dyddiad:** Dydd Mercher 17 Ionawr 2001

**Amser:** 2.00 hyd 5.15 pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU

## Adolygiad o Berfformiad Ebrill 1999 – Medi 2000

## 1.0 CYFLWYNIAD

Yn yr adroddiad hwn mae'r Asiantaeth yn bwrw golwg dros ei pherfformiad hyd at 30 Medi 2000. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi sylw i'r llifogydd difrifol a gafwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cafodd ein hadroddiad perfformiad diwethaf i'r Pwyllgor ei gynhyrchu yn yr hydref 1999 er i ni gyhoeddi, yn y cyfamser, Adroddiad Blynyddol Cymru ar gyfer 1999/2000 a lansiwyd yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi 2000. Mae copiau o'r Adroddiad Blynyddol wedi cael eu cyflenwi. Gwnaethom yn dda yn erbyn ein targedau ar gyfer 1999/2000; rhoddir rhai enghreifftiau dan Bwynt 4.

## 2.0 CRYNODEB AC EDRYCH YMLAEN

Credwn ein bod ni wedi gwneud cynnydd da yn ystod y cyfnod dan sylw, yn erbyn targedau'r cynllun corfforaethol, targedau ein siarter cwsmeriaid, ac o ran ymateb i argyfyngau. Adolygwn ein blaenoriaethau'n gyson, ar sail asesiad o'r peryglon, i sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau. Mae cynlluniau mawr, megis yr ymgyrch yn erbyn gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon, ymdrin â gwaith trwyddedu sydd wedi cronni, neu ymateb i lifogydd difrifol, bob amser yn debygol o effeithio ar weithgareddau eraill. Cymerwn y penderfyniadau hyn yn ofalus, gan roi gwybod i'r Cynulliad am unrhyw anghenion neu beryglon arbennig.

Wrth edrych ymlaen, credwn fod ein sefyllfa ariannol yn gadarn ac y bydd y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn lawn gyfredol yn unol â'r gyllideb. Cyn belled ag y mae materion gweithredol allweddol yn y cwestiwn, byddwn yn:

- parhau â'r broses o benderfynu ar y cais Rheolaeth Llygredd Integredig ar gyfer odyn newydd ar safle Castle Cement Ltd yn Padeswood, sy'n cael ei gyflwyno mewn camau;

- prosesu ceisiadau o dan y drefn Atal a Rheoli Llygredd Integredig mewn perthynas â datblygiadau ym Mharc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy;

- adolygu ein trefniadau, adnoddau ac amddiffynfeydd yn sg T l y llifogydd diweddar;

- parhau ein hymwneud sylweddol â materion yn gysylltiedig â safleoedd tirlenwi Nantygwyddon ac Abernant, Nycomed Amersham, a Bae Caerdydd.

Credwn hefyd ein bod ni'n gwneud cynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau strategol ar gyfer Cymru a nodwyd yn ein cynllun corfforaethol, er ein bod ni wedi codi un mater yn ymwneud ag arian Amcan 1 sy'n peri pryder i ni, ond sydd y tu allan i'n rheolaeth.

**3.0 GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL**

Ystyriwn fod ein perfformiad yn erbyn y targedau yn ein Siarter Cwsmeriaid yn bwysig iawn. Rhoddir llawer o'r wybodaeth berthnasol yn yr adran hon, a'r gweddill yn Atodiad 2.

**a) Trwyddedu**

Mae'r Asiantaeth yn trwyddedu gweithgareddau er mwyn diogelu'r amgylchedd. Dengys Siart 1 isod faint o drwyddedau a roddwyd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill - 30 Medi, ac i ba raddau yr ydym wedi llwyddo i'w prosesu yn unol â'r targed (a osodir yn ein Siarter Cwsmeriaid fel rheol).

Ers sawl blwyddyn buom yn ymdrechu i ddal i fyny â gwaith sydd wedi cronni mewn perthynas â thrwyddedau gwastraff, a neilltuwyd adnoddau yn benodol i ymdrin â’r broblem hon. Cofnodir y cynnydd sylweddol a wnaed yn Siart 2 isod.

**b) Gorfodi (erlyniadau)**

| | **1997/98** | **1998/99** | **1999/00** | **2000/01 (6 mis)** |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y diffynyddion** | 303 | 323 | 276 | 150 |
| **Cyfradd llwyddiant (%)** | - | - | 96 | 92 |
| | | | | |

Er bod nifer yr achosion yn parhau’n weddol gyson, mae’r gyfran o achosion yn ymwneud â throseddau gwastraff wedi cynyddu, yn dilyn ein hymgyrch arbennig yn erbyn troseddau o’r fath (Siart 3). Cafwyd sawl llwyddiant pwysig, gan gynnwys, yn ddiweddar, gorchymyn i ddau ddyn o Gydweli dalu dirwy o £48,000 ynghyd â chostau o £6,000. Daethpwyd â’r achos ar ôl cadw gwyliadwriaeth gudd ar weithgareddau yn ardal Pont-iets, wedi derbyn gwybodaeth a gasglwyd o awyren.

Mae'r swm o ddirwyon pob blwyddyn am droseddau gwastraff wedi codi o £3,900 ym 1997 i £135,325 ym 2000. Mae erlyniadau wedi'u cynghori yn erbyn 65 o bobl ychwanegol.

**c) Cynllunio**

Mae’r Asiantaeth yn chwarae rhan bwysig yn y drefn Cynllunio Gwlad a Thref. Mae dylanwadu ar y broses gynllunio yn rhoi i’r Asiantaeth un o’i chyfleoedd gorau ar gyfer diogelu’r amgylchedd a hybu ei hamcanion a’i nodau.

| **Y gwasanaeth a ddarparwn** | **Y safon y ceisiwn ei chyrraedd** | **Sefyllfa hanner blwyddyn 2000/01** |
| --- | --- | --- |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Darparu cyngor i swyddfeydd cynllunio awdurdodau lleol ar geisiadau cynllunio | Darparu cyngor ar 50 y cant o geisiadau o fewn 14 diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn; 75 y cant o geisiadau o fewn 21 diwrnod gwaith; a 95 y cant o geisiadau o fewn 28 diwrnod gwaith | 52.4% o fewn 14 diwrnod gwaith<br><br>64.5% o fewn 21 diwrnod gwaith<br><br>73.6% o fewn 28 diwrnod gwaith |

Methwyd â chyrraedd y targedau ar gyfer 21 diwrnod ac 28 diwrnod, tra'n cyflwyno system reoli newydd ar gyfer cynllunio. Serch hynny, buom mewn cysylltiad agos â'r awdurdodau lleol i sicrhau nad oedd hyn yn cael effaith arnynt nac yn peri i ni golli cyfleoedd pwysig i ddiogelu neu wella'r amgylchedd.

Rhwng 1 Ebrill - 30 Medi 2000, bu i ni wrthwynebu 67 o geisiadau cynllunio mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Ers hynny, rydym wedi derbyn Rhybuddion Penderfynu ar 50 o rhain, sy'n dangos fod 25 (50%) wedi cael eu caniat < u yn ⊥ l cyngor y swyddog cynllunio, er i ni gynghori yn erbyn. Ar wah > n i dri, mae'r cyfan yng Ngogledd Cymru, ac mae nifer ohonynt ar gorlifdiroedd arfordirol.

**ch) Rheoli Argyfyngau Amgylcheddol**

***Achosion o lygredd:*** cofnodwyd pedwar achos mawr o lygredd d⌊r yn ystod y cyfnod hwn. Cafwyd y llygredd gwaethaf ar 29 Gorffennaf 2000 pan laddwyd oddeutu 100,000 o bysgod, pysgod garw gan mwyaf, yn Afon Dyfrdwy ger Shocklach Green. Er samplu ansawdd y d⌊r, gwneud arolygon biolegol ac ymgymryd ag ymchwiliadau dwys, ni lwyddwyd i ddarganfod beth oedd wedi achosi'r llygredd. Mae'r digwyddiad hwn wedi costio o leiaf £35,000 i ni (amser staff gan mwyaf) a bu'n rhaid i ni ysgwyddo'r gost gan na allwn wneud i'r llygrwr dalu. Roedd gollyngiad o nwy ffwrnais chwyth o Corus, Aberafan - hefyd ar ddiwedd Gorffennaf - yn achos llygredd aer o sylwedd digonnol fel yr ystyrir hysbysu'r UE amdano dan Gyfarwyddyd Seveso II. Nid oedd achos mawr o lygredd i'r tir.

| **Y gwasanaeth a ddarparwn** | **Y safon y ceisiwn ei chyrraedd** | **Sefyllfa hanner blwyddyn 2000/01** |
|---|---|---|
| Ymateb i argyfyngau llygredd | Cyrraedd y safle o fewn dwy awr yn ystod oriau gwaith arferol ac o fewn pedair awr ar adegau eraill | 78% |

***Llifogydd:*** mae'r Swyddfa Dywydd wedi cyhoeddi mai'r glawiad a gofnodwyd yn ystod mis Hydref

2000 ar draws Cymru a Lloegr oedd yr uchaf ers 200 mlynedd. Dosbarthwyd rhybuddion llifogydd yn effeithiol ac effeithlon, gan roi rhybudd amserol i'r cyhoedd bod lefelau afonydd yn codi. Bu ein systemau lledaenu rhybuddion yn gadarn ac effeithiol, a'n hamddiffynfeydd hefyd. Profwyd ein hadnoddau i'r eithaf yn ystod y llifogydd; er enghraifft, yng Ngogledd Cymru, roedd gennym staff yn yr ystafell ddigwyddiadau am 24 awr y dydd o 26 Hydref hyd 12 Tachwedd. Yn ystod y cyfnod hwn, ymdriniwyd â 203 o ymholiadau gan y cyfryngau, 137 o ymholiadau gan y wasg a rhoddwyd 87 o gyfweliadau ar y radio/teledu. Cynhyrchwyd adroddiad dros dro i'r Cynulliad, cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus ac rydym wrthi'n adolygu ein trefniadau, ein hadnoddau a'n hamddiffynfeydd. Serch hynny, llifodd y d⎣r i 1500 o adeiladau – y rhan fwyaf ohonynt mewn ardaloedd nad ydynt wedi cael llifogydd difrifol ers blynyddoedd.

***Amddiffyn rhag Llifogydd a buddsoddiad cyfalaf perthnasol:*** rhestrir y datblygiadau mewn gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd yn ystod y chwe mis cyntaf isod.

- Mae'r cynllun Amddiffyn rhag y Llanw yn Aberystwyth (Glan Ogleddol) wedi ei orffen a bu iddo berfformio'n dda yn ystod y stormydd difrifol a'r glaw trwm a gafwyd yn Hydref/Tachwedd 2000;
- Ailgyflenwyd y gorchudd gerrig sy'n rhan o'r amddiffynfeydd rhag y m⊥r yng Nghob Porthmadog;
- Mae'r gwaith adeiladol ar amddiffynfeydd rhag y llanw yng Nghei Cona, Gogledd Cymru bron wedi'i gwblhau;
- Yn dilyn trafferthion cynllunio, mae gwaith wedi cychwyn ar gynllun Lleddfu Llifogydd Cas-gwent;
- Mae gwelliannau sylweddol parhaol wedi cael eu gwneud i'r rhwydwaith hydrometrig; bydd rhain yn arwain at welliannau nodweddiadol yn y gwasanaeth rhybuddio rhag llifogydd.

**d) Addysgu a Dylanwadu**

Ystyriwn fod hyn yn rhan bwysig, a chynyddol, o'n gwaith. Roedd ein gwyliau Milflwydd, a gynhaliwyd ar y cyd â'n partneriaid, yn llwyddiannus iawn: Sain Ffagan, Caerdydd (19/20 Mai); Wrecsam (10 Mehefin) ac Abertawe (12/13 Awst). Yn ogystal, noddasom gylchdaith gan y gr⎣p theatr *CragRats* a fu'n ymweld â llawer o ysgolion Cymru, gan ledaenu negeseuon ar leihau, ail-ddefnyddio ac ailgylchu gwastraff. Bu iddynt roi berfformiad byr hefyd yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) a gynhaliwyd ar 6 Medi yn Abertawe. Yn y cyfarfod llwyddiannus hwn lansiwyd amryw o ddogfennau, gan gynnwys ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 1999/2000 a'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2001/02. Mae'r rhain, a'r 17 Cynllun Gweithredu sy'n gysylltiedig â Chynllluniau Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd (CLlAAau), a gyhoeddwyd ganol yr haf, wedi cael eu rhoi ar ein gwefan; dengys ystadegau fod cyfanswm o 870 o bobl wedi cyrchu dogfennau'r CCB erbyn canol mis Rhagfyr. Yn ogystal â'r digwyddiadau hyn, roedd gan yr Asiantaeth stondin yn y Sioe Amaethyddol a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Cyflawniadau pwysig eraill yw lansio'r codau rhybuddio am lifogydd newydd, a threfnu cynhadledd y Cynulliad ar "Herio Gwastraff". Wythnos Gweithredu rhag Llifogydd, ar ddechrau mis Medi, oedd ymgyrch deledu gyntaf yr Asiantaeth; dangoswyd hysbysebion ar HTV, teledu lloeren, ac yn y Gymraeg ar S4C. Cofnodwyd llwyddiant arall ym mis Medi pan glywsom fod consortiwm " *Enfys* ", wedi'i arwain gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac yn cynnwys yr Asiantaeth, wedi cael ei benodi gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd i reoli ei rhaglen " *Lleoedd Gwyrdd a Chymunedau*

*Cynaliadwy* " yng Nghymru. Bydd y consortiwm yn dosbarthu £7.5 miliwn i brosiectau cymunedol dros y ddwy flynedd nesaf, i'w gwario dros y pum mlynedd nesaf. Gall prosiectau CLlAA priodol fod yn gymwys i dderbyn arian o'r gronfa hon a bydd y rhaglen yn cynyddu ein hymwybyddiaeth o gynlluniau cymunedol.

## 4.0 TUEDDIADAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL: 1997-2000

| **Mesur perfformiad** | **Cyflawnwyd 1997-98** | **Cyflawnwyd 1998-99** | **1999-2000 targed** | **cyflawnwyd** |
|---|---|---|---|---|
| Erlyniadau: nifer y diffynyddion | 303 | 323 | - | 276 |
| **Rhybuddio am lifogydd** : | | | | |
| Nifer yr adeiladau mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd [1] | Ddim ar gael | Ddim ar gael | - | 30,000 |
| Nifer y bobl sy'n derbyn rhybuddion uniongyrchol | Ddim ar gael | Ddim ar gael | - | 5850 |
| Pysgodfeydd: gwella cynefin glan afon | 13 km | 13 km | 13 km | 13 km |
| **Cydymffurfiad Dyfroedd Ymdrochi (%)** [3] | | | | |
| Safon orfodol | 94 | 94 | 95 | 98 |
| Safon arweiniol | 48 | 38 | 45 | 55 |
| **Ansawdd afonydd (% hyd a ddosbarthwyd):** | | | | |
| Da (dosbarthiadau GQA A a B) | 94 | 94 | 94 | 94 |
| Gweddol (dosbarthiadau GQA C a D) | 5 | 5 | 5 | 5 |
| Gwael/drwg (dosbarthiadau GQA E ac F) | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Caniatáu gweithgareddau gwastraff** [2] **:** | | | | |
| Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd | 79 | 56 | - | 58 |
| Nifer y penderfyniadau a wnaed | 43 | 56 | - | 81 |

Troednodiadau: [1] Nifer yr adeiladau mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd = nifer yr adeiladau mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd lle rydym yn darparu gwasanaeth rhybuddio am lifogydd

[2] Mae hyn yn cynnwys rhoi, addasu, trosglwyddo ac ildio trwyddedau

[3] Arolygwyd rhwng 1 Mai - 30 Medi

Bu i'r asesiad cydymffurfio d⌊ r ymdrochi 2000 (h.y.2000/01) dros Gymru ddangos fod record o

98.7% wedi cydymffurfio dan y safon "Gorfodol" . Roedd 74 allan o'r 75 o draethau a brofwyd

gan yr Asiantaeth yn cwrdd a'r safonau bacteria mandadol fel y'u nodir yng Nghyfarwyddyd D⌊ r

Ymdrochi y GE. Serch hynny, bu i'r nifer o ddyfroedd ymdrochi sy'n cyrraedd y safon arweiniol

syrthio cryn dipyn i ffigwr gydymffurfio o 42.6%.

## 5.0 RHEOLAETH AMGYLCHEDDOL FEWNOL

Rhoddir manylion llawn ar ein perfformiad yn erbyn targedau 1999/00 yn ein Hadroddiad Amgylcheddol, sydd ar gael ar ein Gwefan. Mae'r datblygiad yn ystod y chwe mis cyntaf o 2000/01 wedi bod yn amrywiol. Rydym wedi cyrraedd ein targedau ynni a milltiroedd. Serch hynny, rydym yn gweithio'n galed i wella'n perfformiad mewn perthynas a defnydd d⌊ r, gwastraff a thanwydd amgen. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad 3.

## 6.0 DATGANIAD ARIANNOL

Ym 1999/2000, roedd gwir wariant yn £54,834k, fel yr adroddwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2001/02, o’i gymharu â’r gyllideb o £54,988k. Gweler Adroddiad Blynyddol Cymru ar gyfer 1999/2000 am y manylion ariannol, a baratowyd ar sail cyfrifeg adnoddol.

Derbyniwyd incwm o £24.3m am y chwech mis cyntaf o 2000/01, sy’n £1.5m yn llai nag yn y gyllideb. Serch hynny, rhagwelwn y bydd y canlyniad ar gyfer y flwyddyn gyfredol gyfan yn unol â’r gyllideb. Ceir datganiad llawn yn Atodiad 4.

## 7.0 BLAENORIAETHAU STRATEGOL AR GYFER CYMRU

Yn ystod y cyfnod yn arwain at ddatganoli tynnodd yr Asiantaeth sylw at wyth blaenoriaeth i Gymru a fyddai, yn ei thyb hi, yn elwa gan orolwg strategol y Cynulliad. Parhawn i ddarparu adnoddau ar

gyfer y meysydd pwysig hyn, mewn cydweithrediad â'r Cynulliad lle bo'n briodol, ac mewn partneriaeth â chyrff eraill yng Nghymru. Mae un pwynt allweddol yn ymwneud ag arian Ewropeaidd. Credwn fod perygl go iawn na fydd y partneriaethau neu noddwyr y prosiectau yn cydio yn y cyfleoedd amgylcheddol. Yn arbennig, rydym yn awyddus i sicrhau bod y prosiectau'n darparu pecynnau cytbwys a chynaliadwy o gynlluniau. Crynhoir ein cynnydd yn erbyn pob blaenoriaeth yn Atodiad 1.

**ROGER THOMAS**

**Cyfarwyddwr Cymru**

## ATODIAD 1: BLAENORIAETHAU STRATEGOL AR GYFER CYMRU

*** Cynhyrchu fframwaith amgylcheddol ar gyfer arian o Ewrop:** rydym wedi datblygu Strategaeth Amgylcheddol ac Asesiadau Amgylcheddol Strategol ar y cyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) ar gyfer y Rhaglenni Amcan 1, 2 a 3. Mae'r Asiantaeth hefyd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Dogfennau Rhaglennu Sengl (DRhS) er mwyn cynyddu i'r eithaf y potensial ar gyfer cysylltu gofynion amgylcheddol a datblygiad economaidd a chymdeithasol. Rydym wedi cefnogi datblygu Meini Prawf Asesu Amcan 1 a'r Cynlluniau a Phartneriaethau Lleol a Rhanbarthol unigol.

Y mater yr ydym yn mynd i'r afael ag o ar hyn o bryd yw'r perygl na fydd y partneriaethau neu noddwyr prosiectau yn manteisio ar y cyfleoedd amgylcheddol a geir yn y DRhS - mae'n bosibilrwydd gwirioneddol ar hyn o bryd. Rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod datblygwyr prosiectau yn defnyddio'r cyfleoedd amgylcheddol a geir yn y DRhS a gymeradwywyd i greu pecynnau cytbwys a chynaliadwy o gynlluniau. I'r diben hwn rydym, ar y cyd ag Awdurdod Datblygu Cymru a CCGC, yn noddi cynhyrchu canllawiau ymarferol a hawdd i'w deall at ddefnydd y rheiny sy'n cynnig prosiectau a rheolwyr Rhaglenni dan y pennawd " *Maximising the Environmental Sustainability of the West Wales and Valleys Objective 1 Programme* ". Rydym hefyd yn trafod gyda WEFO yr angen am gynnwys medrau amgylcheddol o fewn y prosesau ar gyfer llywio, cymeradwyo a monitro prosiectau.

*** Cynhyrchu Strategaeth Gwastraff i Gymru:** mae'r Asiantaeth wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu Strategaeth Gwastraff i Gymru drwy roi cymorth i Uned Polisi Gwastraff y Cynulliad, a reolir gan yr Asiantaeth. Rydym hefyd wedi darparu ystadegau hanfodol ar gynhyrchu a rheoli gwastraff yng Nghymru yn y Cynllun Rheoli Gwastraff Strategol i Gymru, a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth ym mis Tachwedd 2000. Mae'r Asiantaeth hefyd yn cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth drwy ei chynrychiolwyr ar Fforwm Gwastraff Cymru ac is-grwpiau cysylltiedig.

*** Gwella systemau rhybuddio am lifogydd ac amddiffynfeydd rhag llifogydd:** cyhoeddwyd codau rhybuddio am lifogydd newydd ym mis Medi, a chawsant eu profi i'r eithaf mewn llai nag wythnos. Rydym wedi uwchraddio cynlluniau rhybuddio am lifogydd lleol, trefniadau ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau a negeseuon llais awtomatig fel y bo angen, ac wedi gwneud ymarferion desg er mwyn sicrhau y bydd y system newydd yn rhedeg yn esmwyth pan geir digwyddiad. Roedd hyn yn cyd-fynd â lansio ail Wythnos Gweithredu rhag Llifogydd yr Asiantaeth ar 12 Medi 2000.

Roedd y pwyslais ar annog pobl i’w helpu eu hunain ac i newid eu hagwedd. Y nod oedd tynnu sylw pobl at lifogydd er mwyn iddynt allu gwneud y paratoadau angenrheidiol, a gwneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o’r system newydd o godau. Yr Wythnos Gweithredu rhag Llifogydd yw’r ymgyrch deledu gyntaf gan yr Asiantaeth, a dangoswyd yr hysbysebion ar HTV, teledu lloeren ac yn y Gymraeg ar S4C. Mae’r hysbysebion hyn yn annog gwylwyr i ffonio Floodline ar 0845 988 1188 i gael rhagor o wybodaeth.

*** Mynd i’r afael â thir wedi’i lygru:** parhawyd i gydweithredu’n agos â’r Awdurdodau Lleol (Gweithgor Tir Llygredig Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru), a nodwyd nifer o safleoedd llygredig posibl lle’r ydym yn bwriadu gwneud archwiliadau. Cafwyd arian gan y Cynulliad ar gyfer y gwaith. Mae’n debyg y bydd disgwyl i’r Asiantaeth barhau â’r gwaith hwn fel rhan o’r Drefn Tir Llygredig newydd. Bydd archwiliadau safle yn cychwyn ym mis Rhagfyr: ym Mhyllau Tar Llwynenion ger Wrecsam, Chwarel Bôn-y-maen ger Abertawe, a Chwarel Brofiskyn ger Llantrisant. Bydd cynrychiolwyr o’r Awdurdodau Lleol yn rhan o’r tîm prosiect ar bob safle.

*** Datblygu Cynllun Datblygiad Cynaliadwy:** ym mis Ebrill, cafwyd ymateb gennym i ddogfen ymgynghori’r Cynulliad " *Cymru Gynaliadwy – Dysgu Byw yn Wahanol* ". Ar y cyd â nifer o sefydliadau eraill, buom yn parhau i gynghori Uned Datblygiad Cynaliadwy y Cynulliad mewn perthynas â pharatoi’r ymgynghoriad cyfochrog ar ddangosyddion, sef " *Cymru Gynaliadwy – Mesur y Gwahaniaeth* ", a lansiwyd ym mis Awst. Rydym hefyd wedi dechrau gweithio gyda sefydliad " *Amgylchedd Cymru* ", ac wedi helpu i drefnu y gynhadledd " *Finding Our Voices 2* " a gynhaliwyd ym mis Tachwedd.

*** Hybu defnydd tir mwy cynaliadwy:** rydym wedi cyfrannu at waith y Fforwm Cynllunio Defnydd Tir, yn enwedig mewn perthynas â’r cynigion am bolisi cynllunio diwygiedig ar: ddatblygiad cynaliadwy, diogelu gorlifdiroedd, cynllunio gwastraff, a lleihau’r peryglon amgylcheddol wrth ddylunio ac adeiladu datblygiadau. Rydym yn awyddus i gefnogi a chyfrannu at ddatblygu strategaeth gyffredinol mewn perthynas â defnydd tir a chynllunio gofodol yng Nghymru sy’n cymryd cyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol i ystyriaeth.

*** Cynhyrchu polisi cludiant integredig:** mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn aelod o Fforwm Cludiant Cymru ac mae wedi cyfrannu at y drafodaeth ar gludiant yng Nghymru bob cyfle posibl. Mae’r cyfraniadau hyn yn cynnwys: gwneud sylwadau ar Gynlluniau Cludiant Lleol, ymateb i’r Pwyllgor Materion Cymreig ar effeithiau’r Mesur Cludiant yng Nghymru a gwneud cyflwyniadau i bwyllgorau’r Cynulliad ar faterion cludiant cynaliadwy.

- **Cynhyrchu strategaeth egni cynaliadwy:** rydym wedi cyfrannu ac yn cyfrannu at y drafodaeth ar egni cynaliadwy. Rydym yn aelodau o Gr⌊ p Egni Cynaliadwy y Cynulliad Cenedlaethol a buom yn cydweithio’n agos â SEL pan oedd yn paratoi ei hadroddiad strategol ar egni cynaliadwy i’r Cynulliad. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru hefyd wedi cyfrannu at ymateb Asiantaeth yr Amgylchedd i bapur ymgynghori yr Adran Diwydiant a Masnach ar bolisi egni adnewyddadwy, yr ydym, ar y cyfan, yn ei gefnogi. Rydym wedi gwneud newidiadau i’n trefn ymgynghori ar gyfer cynllunio, fel y gellir rhoi ystyriaeth i fanteision byd-eang egni adnewyddadwy. Bydd yr Asiantaeth yn mynnu bod llai o egni’n cael ei wastraffu yn sg T l y Gyfarwyddeb Atal a Rheoli Llygredd Integredig, sydd r⌊ an mewn grym yn y DU.

**ATODIAD 2: SIARTER CWSMERIAID**

| **Y gwasanaeth a ddarparwn** | **Y safon y ceisiwn ei chyrraedd** | **Sefyllfa hanner blwyddyn<br><br>2000/01** |
|---|---|---|
| 1. Ateb galwadau ffôn | Ateb 95% o fewn 15 eiliad | 84%<br><br>[176134/210119] |
| 2. Ymateb i ymholiadau cyffredinol dros y ffôn a thrwy lythyr | Ateb ymholiadau ffôn yn syth os oes modd. Ateb ysgrifenedig o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn llythyr | 98%<br><br>[9924/10100] |
| 3. Ymateb i gwynion | Ateb ar unwaith os oes modd. Ateb ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl derbyn cwyn | 77% o fewn pum diwrnod<br><br>90% o fewn 10 diwrnod<br><br>[34/44] |
| 4. Ymateb i geisiadau am wybodaeth a wneir o dan y Côd Ymarfer ar Lywodraeth Agored | Ateb o fewn 20 diwrnod gwaith | 100%<br><br>[10/10] |
| 5. Ymateb i geisiadau am wybodaeth a wneir o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol | Ateb o fewn dau fis ar ôl derbyn y cais | 100% |
| 6. Rhoi canlyniadau dadansoddiadau o samplau d⌊ r ar y gofrestr gyhoeddus | Canlyniadau ar y gofrestr o fewn 60 diwrnod | 71% |

Troednodyn: ceir mesurau eraill mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn (e.e. trwyddedu, cynllunio, achosion o lygredd). Gweler ein Hadroddiad Blynyddol, tudalen 54, am dabl llawn yn dangos ein perfformiad yn erbyn y Siarter Cwsmeriaid ym 1999/2000.

**ATODIAD 3: RHEOLAETH AMGYLCHEDDOL MEWNOL**

Rhoddir manylion llawn ar ein perfformiad yn erbyn targedau 1999/00 yn ein Hadroddiad Amgylcheddol, sydd ar gael ar ein Gwefan.

| TARGED | CYNNYDD |
|---|---|
| **Defnydd Dŵr (targed safle) –** defnyddio 30% yn llai o ddŵr na'r norm a dderbynnir neu'r defnydd ym 1996/97 yn swyddfeydd a chanolfannau'r Asiantaeth | Wedi methu'r targed chwe mis. Ond oherwydd ein rhaglen fonitro, cafwyd hyd i achos difrifol o ddŵr yn gollwng, sydd rŵan wedi ein galluogi i gymryd camau i gywiro'r methiant |
| **Egni (targed safle) –** defnyddio 20% yn llai o egni yn adeiladau'r Asiantaeth nag ym 1991/92 | Dylid cwrdd â'r targed cyffredinol ar gyfer swyddfeydd AAC. Lleihawyd defnydd egni i 20% o dan fan cychwyn 99/00 a'r nod eleni yw cynnal y gostyngiad hwn |
| **Gwastraff (targed safle) –** cynhyrchu 15% yn llai o wastraff gweddilliol nag ym 1997/98 | Gwybodaeth yn cael ei gaslgu am y gwastraff a gynhyrchir ar hyn o bryd i'w chymharu â'n mannau cychwyn; ansicr os byddwn yn cwrdd â'r targed. Mae monitro gwastraff yn rhan o'n contractau glanhau erbyn hyn, er mwyn lledu'r neges amgylcheddol i'r gadwyn gyflenwi |
| **Milltiroedd –** cadw milltiroedd busnes ar y lefel bresennol o 7% yn llai na man cychwyn 1996/97 er gwaethaf y cynnydd mewn gwaith | Ym 99/00, disgynnodd milltiroedd o 7200 milltir/CALl (96/97) i 6300 milltir/CALl, er na newidiodd cyfanswm y milltiroedd. Rydym ar darged i gyflawni'r gostyngiad cyffredinol o 7% (h.y. gostyngiad o 7% ar lefelau 96/97 ni waeth beth fo'r cynnydd mewn staff a baich gwaith) |
| **Cynlluniau cludiant gwyrdd (targed safle) –** gweithredu Cynlluniau Cludiant Gwyrdd ym mhob un o safleoedd allweddol yr Asiantaeth | Mae gan bob safle allweddol Gynllun Cludiant Gwyrdd sy'n cael ei gweithredu |
| **Tanwyddau amgen –** 3% o gerbydau'r Asiantaeth (tua 56 cerbyd) i ddefnyddio tanwyddau amgen erbyn diwedd Mawrth 2001 | Ansicr a fyddwn yn cwrdd â'r targed 3% oherwydd cyfyngiadau ariannol (mae cerbydau tanwydd amgen yn costio mwy). Mae gennym sawl cerbyd gyriant 4-olwyn LPG a phrofwyd car tanwydd-hybrid |

| | |
|---|---|
| **Ailgylchu agregau** – sicrhau bod o leiaf 20% o agregau adeiladu wedi'u hailgylchu neu'n rhai eilaidd | Dylid cwrdd â'r targed |
| **Rhestrau gwirio DIY (targed safle)** – sicrhau bod safleoedd yr Asiantaeth yn cydymffurfio'n llawn drwy barhau â'r broses hunan-archwilio | Defnyddir rhestrau gwirio DIY ar bob safle o hyd. Rydym hefyd yn datblygu System Rheolaeth Amgylcheddol i gwrdd â safon ISO14001 ym mhum safle |

## ATODIAD 4: DATGANIAD ARIANNOL

### 1. CYFLWYNIAD

Mae'r datganiad ariannol yn cynrychioli'r costau, sy'n adlewyrchu gweithgareddau'r Asiantaeth yng Nghymru ac er lles Cymru, a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i gwrdd â chostau'r gweithgareddau hyn.

Mae'r symiau a ddangosir wedi cael eu tynnu o gyfrifon yr Asiantaeth ar gyfer Cymru a Lloegr. Ni pharatoir cyfrifon ar wahân ar gyfer Cymru ond cyfrifwyd y symiau er mwyn rhoi asesiad teg a rhesymol o'r costau a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni holl weithgareddau'r Asiantaeth sydd o fudd i Gymru.

Lle mae incwm yn ymwneud â thaliadau sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd, cynhwyswyd lefel gyfartal o incwm o gwsmeriaid yn Lloegr i gyfateb i'r gwariant yng Nghymru. Lle ceir incwm o gwsmeriaid yn Lloegr, ond lle mae'r gwariant sy'n gofyn am yr incwm hwnnw yn cael ei wneud yng Nghymru, cyplyswyd yr incwm â'r gwariant hwnnw.

### 2. BLWYDDYN ARIANNOL 1999-2000

Gweler Adroddiad Blynyddol Cymru ar gyfer 1999-2000 am y manylion ariannol, a baratowyd ar sail cyfrifeg adnoddol. Roedd gwir wariant yn £54,834k, fel yr adroddwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2001/02, o'i gymharu â'r gyllideb o £54,988k. Gwariwyd £34,214k ar y swyddogaeth Rheoli Dŵr a £20,620k ar y swyddogaeth Diogelu'r Amgylchedd. Mae'r symiau hyn ychydig yn wahanol i'r gyllideb. Roedd y cymorth grant a 'dynnwyd i lawr' yn unol â'r dyraniad cyllidebol.

### 3. BLWYDDYN ARIANNOL 2000-2001 (Chwe mis hyd fis Medi 2000)

3.1 ***Incwm***

Derbyniwyd incwm o £24.3m, sy'n £1.5m yn llai na'r swm yn y gyllideb. Ceir y prif

amrywiadau yn y swyddogaeth Rheoli D⌊ r mewn perthynas â gwasanaethau Adnoddau D⌊ r (£0.7m) ac Amddiffyn rhag Llifogydd (£0.4m).

Serch hynny, rhagwelwn y bydd y canlyniad ar gyfer y flwyddyn gyfredol gyfan yn unol â’r gyllideb. Mae gwybodaeth am wariant yn dilyn.

### 3.2 ***Gwariant ar Ddiogelu’r Amgylchedd***

Gwariwyd £9.4m yn y chwe mis cyntaf, sef £0.2m yn llai na’r gyllideb hyd yma. Mae’r rhagolwg ar gyfer y flwyddyn lawn yn unol â’r gyllideb.

Derbyniwyd cymorth grant ychwanegol o £0.6m yn ddiweddar i wneud i fyny am yr incwm a gollwyd yn sg T l penderfyniad y Llywodraeth i atal ac ad-dalu taliadau mewn perthynas â Thaliadau D⌊ r Daear. Nid adlewyrchir hyn yn y ffigurau chwe misol ond bydd yn ymddangos yn y ffigur am yr ail hanner.

### 3.3 ***Gwariant ar Reoli D⌊ r***

3.3.1 Gwariwyd £5.7m ar Amddiffyn rhag Llifogydd yn hanner cyntaf y flwyddyn, sef £0.4m yn llai na’r gyllideb hyd yma. Amserlen y rhaglen gyfalaf sy’n bennaf cyfrifol am hyn. Mae’r rhagolwg ar gyfer y flwyddyn lawn yn £16.5m ar hyn o bryd, yn erbyn cyllideb o £15.9m. Seilir hyn ar gyllidebau diwygiedig ar gyfer gwariant refeniw a gwariant cyfalaf a gyflwynwyd i gyfarfodydd diweddar y Pwyllgorau Amddiffyn rhag Llifogydd Lleol.

Rhaid nodi, fodd bynnag, fod y ffigurau a ddangosir yn adlewyrchu gofynion Cymru. Caiff y sefyllfa yn ardaloedd pob un o’r saith Pwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd sy’n gweithredu yng Nghymru ei monitro a’i hadrodd yn rheolaidd i’r Pwyllgor perthnasol. Mae’r broses yn cynnwys ailflaenoriaethu rhaglenni gwaith i adlewyrchu cyfyngiadau peirianegol ac ariannol. Dylid nodi hefyd fod yn rhaid i lawer o’r Pwyllgorau Amddiffyn rhag Llifogydd yng Nghymru sicrhau cynnydd sylweddol mewn cyllid ar gyfer 2001/02. Mae cyfarfodydd y pwyllgorau hyn yn cael eu cynnal ar hyn o bryd ac felly ni wyddys eto faint o gyllid a sicrheir mewn gwirionedd. Câi’r cyllid ychwanegol ei ddefnyddio i ariannu gwaith argyfwng yn sg T l y llifogydd diweddar a blaenoriaethau eraill a ddarganfuwyd o ganlyniad.

3.3.2 Mae gwariant refeniw ar Adnoddau D⌊r am y chwe mis cyntaf yn £0.7m yn llai na'r gyllideb hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod sawl prosiect wedi cael ei ohirio hyd 2001/02. Mae'r bwriad i godi Tâl Uned Safonol is ar gyfer 2001/02 yn adlewyrchu hyn.

Mae'r rhaglen gyfalaf yn parhau ar darged.

3.3.3 Mae'r swyddogaethau Rheoli D⌊r eraill wedi gwario ychydig yn llai na'r swm sydd yn y gyllideb ar gyfer hanner cyntaf y flwyddyn, gyda gwariant o £2.0m o'i gymharu â chyllideb hyd yma o £2.2m. Rhagwelwn y bydd cyflymu gwariant yn ystod ail hanner y flwyddyn yn sicrhau bod y canlyniadau ar gyfer y flwyddyn lawn yn unol â'r gyllideb.

4. Byddwch cystal â gweld y Datganiad o Incwm a Gwariant sydd ynghlwm i gael manylion chwe mis cyntaf 2000/01.

**Datganiad o Incwm a Gwariant am y chwe mis hyd fis Medi 2000**

**£000oedd**

| **Gwasanaeth** | **Incwm Gweithredol** | **Cymorth Grant** | **Grant Cyfalaf** | **Cyfanswm Incwm** | **Gwariant Gweithredol** |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio Diwydiannau Prosesu | 766 | 214 | 0 | 980 | 1030 |
| Rheoleiddio Sylweddau Ymbelydrol | 214 | 91 | 0 | 305 | 255 |
| Rheoli Gwastraff | 1698 | 878 | 0 | 2576 | 2576 |
| Ansawdd D⌊r | 2924 | 2161 | 0 | 5085 | 5085 |
| Atal a Rheoli Llygredd Integredig | 83 | 94 | 0 | 177 | 177 |
| Ansawdd Tir | 0 | 267 | 0 | 267 | 267 |
| **Cyfanswm Diogelu'r Amgylchedd** | **5685** | **3705** | **0** | **9390** | **9390** |
| | **5861** | **3749** | **0** | **9610** | **9610** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | | | | | |
| Amddiffyn rhag Llifogydd | 5635 | 0 | 78 | 5713 | 5713 |
| Adnoddau D⎣ r | 7133 | 0 | 0 | 7133 | 7133 |
| Pysgodfeydd | 449 | 1277 | 0 | 1726 | 1726 |
| Cadwraeth | 0 | 177 | 0 | 177 | 177 |
| Mordwyo | 0 | 63 | 0 | 63 | 63 |
| Hamdden | 0 | 58 | 0 | 58 | 58 |
| **Cyfanswm Rheoli D⎣ r** | **13217** | **1575** | **78** | **14870** | **14870** |
| **Cyllideb** | **14521** | **1579** | **114** | **16214** | **16214** |
| **Cyfanswm Pob Gwasanaeth** | **18902** | **5280** | **78** | **24260** | **24260** |
| **Cyllideb** | **20382** | **5328** | **114** | **25824** | **25824** |

**Datganiad o Wariant am y chwe mis hyd fis Medi 2000**

**£000oedd**

| **Gwasanaeth** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Rheoleiddio Diwydiannau Prosesu | 1030 | 0 | 1030 |
| Rheoleiddio Sylweddau Ymbelydrol | 255 | 0 | 255 |
| Rheoli Gwastraff | 2576 | 0 | 2576 |
| Ansawdd D⎣ r | 5085 | 0 | 5085 |
| Atal a Rheoli Llygredd Integredig | 177 | 0 | 177 |
| Ansawdd Tir | 267 | 0 | 267 |
| **Cyfanswm Diogelu'r Amgylchedd** | **9390** | **0** | **9390** |
| **Cyllideb** | **9610** | **0** | **9610** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Amddiffyn rhag Llifogydd | 5256 | 457 | 5713 |
| Adnoddau D⌊ r | 6930 | 203 | 7133 |
| Pysgodfeydd | 1726 | 0 | 1726 |
| Cadwraeth | 177 | 0 | 177 |
| Mordwyo | 63 | 0 | 63 |
| Hamdden | 58 | 0 | 58 |
| **Cyfanswm Rheoli D⌊ r** | **14210** | **660** | **14870** |
| **Cyllideb** | **15114** | **1100** | **16214** |
| **Cyfanswm Pob Gwasanaeth** | **23600** | **660** | **24260** |
| **Cyllideb** | **24724** | **1100** | **25824** |

*Sylwer: Mae’r proffiliau cyllideb wedi’u seilio ar y rheiny yng Nghynllun Corfforaethol Cymru 2001/2002*